





# 2021/2022

x

# Adroddiad Sefydliadol #9

x

## Y cyfnod dan sylw: 1 Ebrill – 30 Mehefin 2021

Casi Wyn, Bardd Plant Cymru 2021-23 a Connor Allen, Children's Laureate Wales 2021-23.

Llenyddiaeth
Cymru
Literature
Wales

# Cynnwys

**Diweddariadau, Uchafbwyntiau a Mewnwelediadau**
Diweddariadau COVID-19...... 3
Uchafbwyntiadau Sefydliadol, Gweithgaredd, a Gweithredol...... 4

**Effaith Sefydliadol**
Y newid tymor hir y bydddwn yn eu cynhyrchu i Gymru...... 7

**Canlyniadau Sefydliadol**
Y newidiadau tymor canolig y byddwn yn eu cynhyrchu ar gyfer ein cleintiaid...... 7

**Allbynnau Sefydliadol**
Sylw i dargedau a fethwyd......8
Prif Nodau Llwyddiant mewn perthynas â'n Colofnau Gweithgaredd ..... 10
Mesurau Llwyddiant mewn perthynas â'n Blaenoriaethau Gweithredu.... 13

**Diweddariad Ychwanegol Targed CAR**
Adrodd i'n ariannwyr ...... 20

**Gwerthuso**
Gwersi Sefydliadol a Gweithredol i'w Dysgu...... 21
Gwersi i'w Dysgu o'n Gweithgareddau ......22

## Sut i ddarllen yr adroddiad hwn

- Mae'r adroddiad hwn yn gyfuniad o brofforma **Gofynion Cyllido Cyngor Celfyddydau Cymru** (sy'n canolbwyntio ar ein tri Mesur Llwyddiant Allweddol ac un eitem ychwanegol) ac ein **gofynion adrodd mewnol** ar y canlyniadau a'r effaith sefydliadol rydym yn gobeithio eu cyflawni, yn ogystal â'n **Nodau Llwyddiant gweithredol** a'n **Gwersi i'w Dysgu.**
- Mae'r targedau sydd wedi eu cynnwys ar **gyfer blwyddyn 3** (2021/2022) o 5 mlynedd y Cynllun Strategol 2019-23. Mae'r targedau yma'n cynrychioli ein huchelgeisiau, sydd yn gysylltiedig â'r prosiectau yn ein rhaglen gweithgaredd a gweithredoedd presennol a'n patrymau gwleidyddol, demograffig ac economaidd presennol. Mae rhai o'n prosiectau'n ddibynnol ar ffynonellau cyllid allanol, a bydd rhai'n cael eu haddasu neu'n troi'n annichonadwy yn ystod y broses ddatblygu. Bydd rhai prosiectau'n cael eu heffeithio gan ffactorau sydd y tu allan i'n rheolaeth uniongyrchol ni. Am y rhesymau hyn**, mae'r targedau hyn yn rhagolwg o sut fydd llwyddiant yn edrych ac mae'n bosib y cânt eu hadolygu'n rhesymegol.**
- Gall ein **Prif Nodau Llwyddiant 2021/22 fod ychydig yn is na'r rhai a osodwyd yn 2020/2021**. Mae hyn o ganlyniad i ansicrwydd presennol ein gweithgaredd a'n rhaglen weithredol**. Byddwn yn ail-werthuso targedau** ar ddiwedd y flwyddyn ariannol er mwyn sicrhau eu bod yn realistig yn ystod pandemig COVID-19.

# Diweddariad **COVID-19**

**Hydref o lansiadau digidol, addasu i ganllawiau, a chyrraedd cynulleidfaoedd newydd.**

Parhaodd COVID-19 i effeithio ar ein holl weithgareddau a'n prosesau gweithredol yn ystod y chwarter hwn.

Datblygodd staff Tŷ Newydd raglen gyrsiau 2022-23 gyda'r gobaith o ailagor y drysau i'r cyhoedd ym mis Ebrill 2022. Mae amcanestyniadau incwm ceidwadol wedi'u gwneud er mwyn ymateb i'r ansicrwydd parhaus hwn, ac rydyn ni'n dal i ddatblygu cynnig digidol i gefnogi awduron. Nod y cyrsiau newydd – yn rhai digidol a phreswyl – yw denu awduron newydd drwy ddrysau (digidol) Tŷ Newydd, a rhoi sylw i faterion pwysig fel yr argyfwng hinsawdd a chynrychiolaeth ac amrywiaeth.

Cyhoeddwyd enwau'r Beirdd Plant newydd yn ddigidol, gan addasu'r cynlluniau i gynnal digwyddiad wyneb yn wyneb wrth i ysgolion ledled Cymru orfod dygymod â nifer cynyddol o achosion. Effeithiodd COVID-19 hefyd ar ddigwyddiad proffil uchel cyntaf y Beirdd Plant, a drefnwyd mewn perthynas ag EYE Cymru, gan y bu'n rhaid gohirio'r ŵyl oleuadau tan fis Hydref 2022. Bydd y naill fardd a'r llall yn canolbwyntio ar ennyn diddordeb plant nad ydyn nhw wedi cael cyfle o'r blaen i fwynhau gweithdai barddoniaeth, gan addasu i blatfformau digidol lle bydd galw i sicrhau diogelwch a hygyrchedd.

Roedd Gwobr Llyfr y Flwyddyn ar agor i enwebiadau yn ystod y chwarter, a chafwyd nifer gwych o enwebiadau. Mae disgwyl i'r seremoni wobrwyo gael ei chynnal yn ddigidol yn 2022 ar ôl y cyrhaeddiad ehangach a gafwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Yn y chwarter hwn hefyd, lansiwyd ein Cronfa Ysbrydoli Cymunedau a rhestr ddigidol Awduron Cymru. Mae'r naill a'r llall yn adnoddau gwerthfawr i helpu i hwyluso gweithgarwch llenyddol ehangach drwy Gymru. Ar ôl dysgu mwy am hygyrchedd ac apêl adnoddau digidol dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bydd datblygu adnoddau digidol fel y rhai uchod yn rhywbeth y byddwn ni'n parhau i'w wneud yn Chwarter 4 ac o fis Ebrill 2022 ymlaen.



Map Ymwelwyr y Byd yng Nghanolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd

# Uchafbwyntiau

## Sefydliadol

- Roedd y chwarter yn gyfnod o newid ac o recriwtio. Gadwodd dau aelod o staff, sef Della Rose Hill-Katso, yr Arweinydd Creadigol, a Steffan Phillips, y Swyddog Cyfranogi Cymunedol, a hynny ar ôl bron i 4 blynedd yn y sefydliad. Penodwyd Marvin Thompson yn Arweinydd Creadigol newydd ac ymunodd Emily Dafydd-Drew fel Cydlynydd Creadigol. Mae modd darllen mwy amdanyn nhw a'u cyfrifoldebau fan hyn.
- Daeth Branwen Llewellyn yn Arweinydd Cyfathrebu Dros Dro a bydd yn dychwelyd i weithio ar sail amser llawn yn 2022.
- Cwblhawyd y strwythur staffio newydd, gan sicrhau cysondeb ac eglurder yn nheitlau a chyfrifoldebau swyddi drwy'r holl sefydliad.

## Gweithgareddau

- Ymwelodd y bardd **Anisur Rahman** â Chymru a chwrdd ag **Ifor ap Glyn,** Bardd Cenedlaethol Cymru, i ddatblygu'r gyfnewidfa lenyddol sydd wedi'i chreu rhwng Cymru a Sweden ac alltudion o Fangladesh dros yr wyth mlynedd ddiwethaf.
- Cafwyd lansiad llwyddiannus wrth gyhoeddi mai **Casi Wyn** fyddai Bardd Plant Cymru 2021-23 ac mai **Connor Allen** fyddai'r Children's Laureate Wales 2021-23. Cafodd y cyhoeddiad ymateb cadarnhaol a sylw eang yn y wasg a'r cyfryngau.
- Cafodd y gerdd Dy Lais-Your Voice ei darllen yn ystod agoriad swyddogol y chweched Senedd. Cerdd ar y cyd oedd hon a ddatblygwyd gan y beirdd Anni Llŷn, Taylor Edmonds, Gruffudd Owen ac Eloise Williams gyda 24 o ysgolion cynradd yn ystod haf 2021. Mae modd gwylio'r gerdd fan hyn.
- Cyhoeddwyd galwad lwyddiannus ar gyfer ail rownd cynllun Cynrychioli Cymru, gyda 95 o geisiadau'n dod i law o bob cwr o Gymru. Yn ail flwyddyn y rhaglen, bydd Llenyddiaeth Cymru yn cynnig cefnogaeth helaeth i garfan o awduron o gefndiroedd incwm isel.
- Lansiwyd rhestr Awduron Cymru o'r newydd yn ogystal â'n Cronfa Ysbrydoli Cymunedau, gyda'r nod o hwyluso'r gwaith o gynnig gweithgareddau llenyddol yn ehangach ledled Cymru.
- Lansiwyd rhaglen amrywiol a chyffrous o **gyrsiau blasu digidol gan Dŷ Newydd** ar gyfer y gaeaf, ynghyd â **dau gwrs preswyl** a fydd yn cael eu cynnal yng ngwanwyn 2022. Nod y ddau gwrs preswyl yw rhoi sylw i'r diffyg cynrychiolaeth yn ffuglen plant ddwyieithog Cymru. Mae modd darllen adroddiad blynyddol Reflecting Realities 2021 fan hyn, a gellir dysgu mwy am sut y mae eu hymchwil systematig i amrywiaeth ethnig yn llenyddiaeth plant y Deyrnas Unedig wedi dylanwadu ar strategaeth Llenyddiaeth Cymru yn y blog hwn.

CYNRYCHIOLI
CYMRU

Lansiwyd ail rownd cynllun Cynrychioli Cymru, y tro hwn gyda'r nod o gefnogi awduron o gefndiroedd incwm isel.

## Gweithredol

- Cydweithiodd y tîm i adolygu a diweddaru polisïau'r sefydliad.
- Bu'r holl staff yn bresennol mewn sesiwn hyfforddiant fewnol am gasglu data ar gyfer prosiectau, dan arweiniad **Claire Furlong,** y Dirprwy Brif Weithredwr a **Miriam Sautin**, y Cydlynydd Creadigol. Rhannwyd yr Uwch Dîm Arwain yn ddau is-grŵp gydag un yn canolbwyntio ar faterion gweithredol a'r llall yn trafod pynciau creadigol. Nod y newid hwn yw hwyluso trafodaethau mewnol a sicrhau tryloywder yn y tîm yn ehangach.
- Datblygwyd Cynllun Cyfathrebu cyn lansiad cynllun strategol 2022-25.

READING FRIENDS

Dechreuwyd cynnal grwpiau darllen misol, ar y cyd â'r partner cenedlaethol, yr Asiantaeth Ddarllen, yn Sir y Fflint fis Hydref diwethaf



Perfformiwyd cerdd Dy Lais-Your Voice yn seremoni agor y Senedd.



Ymunodd Emily Dafydd-Drew â ni fel Cydlynydd Creadigol newydd ym mis Tachwedd



Bu Ifor ap Glyn, Bardd Cenedlaethol Cymru, yn ymweld â phrifysgolion ledled yr Almaen fel rhan o'i swydd fel llysgennad diwylliannol

Llyfr y Flwyddyn Wales Book of the Year

Ailagorodd yr enwebiadau ar gyfer Gwobr Llyfr y Flwyddyn yn y chwarter hwn



Ailagorodd ceisiadau ar gyfer y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau ym mis Tachwedd a daeth 54 o geisiadau i law dros y ddau fis diwethaf.




Ail-lansiwyd Rhestr Awduron Cymru, gan helpu pobl i ddod o hyd i dalent



Ym mis Rhagfyr, bu Marged Tudur a Ffion Campbell-Davies yn mynegi'u hunain fel rhan o gyfres Plethu/Weave



Datblygwyd cwrs preswyl yn Nhŷ Newydd, wedi'i seilio ar greu cymeriadau o liw i blant, gyda'r tiwtoriaid Jasbinder Bilan (ar y chwith) a Patience Agbabi (ar y dde).

**Fe wnaethon ni ddweud y bydden ni'n gwneud cyfraniad o bwys at lesiant cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru.**

Rydyn ni'n gwneud hyn drwy wneud darllen ac ysgrifennu creadigol yn fwy hygyrch i blant a phobl ifanc ledled Cymru, gan ddangos sut mae modd mwynhau hyn.

**Ffigurau ers mis Ebrill 2019 ..**

| | |
|---|---|
| **146,601**<br>Fideos y Beirdd Plant wedi'u gweld 146,601 o weithiau'n ddigidol | **130**<br>Y Beirdd Plant wedi ymweld â 130 o ysgolion |
| **22**<br>22 o gerddi swyddogol gan y Beirdd Plant wedi'u comisiynu | **5**<br>5 o Feirdd Plant |



Ffigyrau o Ebrill 1 2019 – Rhagfyr 31 2021

# Uchafbwynt: Plant a Phobl Ifanc

Ar sail ein dealltwriaeth o allu llenyddiaeth i rymuso, gwella a chyfoethogi bywydau, rydyn ni'n credu ei bod hi'n hanfodol bod plant yn datblygu ac yn meithrin perthynas dda â llenyddiaeth yn ifanc. Dim ond cynyddu a wnaeth ein cyfrifoldeb i roi sylw i gynulleidfaoedd ifanc ers lansio ein strategaeth yn 2019, wrth i adroddiadau am unigrwydd, gorbryder a phryderon iechyd meddwl eraill ymhlith y grŵp oedran gynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae darparu prosiectau sy'n canolbwyntio ar hygyrchedd, cynrychiolaeth ac iechyd a lles yn parhau'n flaenoriaeth. Isod y mae enghreifftiau sy'n dangos ein hymrwymiad i blant a phobl ifanc Cymru.

## Ein Beirdd Plant 2021-23

Dros y ddwy flynedd nesaf, bydd barddoniaeth a pherfformio yn tanio dychymyg plant wrth i Connor Allen, y bardd a'r artist amlddisgyblaethol, gamu i swydd y Children's Laureate Wales, ac wrth benodi'r gantores, yr gyfansoddwraig a'r awdures Casi Wyn yn Fardd Plant Cymru. Mae'r ddau brosiect yn cyd-fynd â'i gilydd, a dros y ddwy flynedd nesaf bydd Connor a Casi yn cyfrannu at feithrin cenhedlaeth iachach, mwy creadigol a mwy amrywiol o ddarllenwyr ac awduron ledled Cymru. Byddan nhw'n gweithio'n bennaf gyda phobl ifanc rhwng 5 ac 13 oed drwy gynnal gweithdai mewn ysgolion a datblygu prosiectau llenyddol gyda phartneriaid strategol.

## Prosiect 'Do You Get Me' yn Ysgol Gymunedol Tonyrefail

Dechreuodd **Eloise Williams,** awdur plant o fri a'r Children's Laureate Wales cyntaf, ar antur newydd, gyffrous fel awdur preswyl yn **Ysgol Gymunedol Tonyrefail** yn Rhondda Cynon Taf. Yn ystod y tymor hwn, cynigiodd Eloise weithdai pwrpasol ar gyfer disgyblion blwyddyn 8 a grŵp o ddisgyblion CA3 sy'n byw gyda gorbryder a heriau iechyd meddwl eraill. Cynhaliodd hi hefyd sesiynau anffurfiol yn llyfrgell yr ysgol dros ginio, lle roedd modd i ddisgyblion ddod i sgwrsio â hi am y llyfrau. At hynny, cynhaliwyd cystadleuaeth ysgrifennu creadigol drwy'r holl ysgol, ac yn hael iawn rhoddodd Firefly Press ddetholiad o lyfrau yn wobrau i'r pum enillydd. Byddwn ni'n parhau i fesur effaith cyfnod preswyl Eloise yn Nhonyrefail, a bydd y canfyddiadau'n cael eu rhannu ag ysgolion ledled Cymru i'w hysbrydoli i edrych ar fanteision posibl penodi awduron ac artistiaid preswyl yn eu hysgolion eu hunain.

| | |
|---|---|
| *"Fe wnes i fwynhau. Fe wnaeth imi deimlo'n well oherwydd fod gen i orbryder ac rwy'n casáu sgwrsio am y peth."*<br>-Disgybl CA3 | - *"Fe all unrhyw un fod yn awdur."*<br>-Disgybl CA3 |

| | Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2021 | Y dull o gasglu data |
| --- | --- | --- | --- |
| **Effaith Sefydliadol** | Byddwn ar ein ffordd i rymuso, gwella a goleuo bywydau ein cleientiaid, gan gyfrannu at eu llesiant ehangach a llesiant cymdeithas, economi a diwylliant Cymru | Yn ystod y chwarter hwn, fe edrychon ni ar ein dulliau o olrhain effaith hirdymor y gweithgareddau rydyn ni'n eu cynnig a'n systemau gweithredol. Bydd y broses fonitro a gwerthuso newydd a symlach yn cael ei rhoi ar waith ym mis Ebrill 2022.<br>Bydd yr arolwg hydredol yn rhan o'r fframwaith effaith newydd hwn, a bydd yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod Chwarter 4. Drwy ddiffinio amcanion yr arolwg yn glir, a dewis grŵp amrywiol o gyfranogwyr, byddwn ni'n creu adnodd defnyddiol ac effeithiol i'r sefydliad allu olrhain ei waddol.<br>Ynghyd â'n cynlluniau ar gyfer yr arolwg hydredol, rydyn ni hefyd wedi ymchwilio i ffyrdd gwahanol o ddilyn llwybrau ein hawduron o'u hymwneud cyntaf â Llenyddiaeth Cymru, gan weld sut maen nhw'n cydweithio â ni yn y dyfodol. Mae hyn er mwyn canoli gwybodaeth y staff a sicrhau bod cefnogaeth helaeth yn cael ei rhoi i amrywiaeth eang o awduron. | Arolwg Hydredol 2019-22 |
| **Canlyniadau Sefydliadol** | Bydd ein cleientiaid yn nesáu at gael:<br>▪ **Gwell** sgiliau siarad ac ysgrifennu<br>▪ **Mwy** o hunanhyder<br>▪ **Rhagor** o gyfleoedd gwaith<br>▪ **Llai** o bobl yn teimlo'n ynysig<br>▪ **Risg is** o salwch meddwl, a'r gallu i wrthsefyll salwch meddwl yn well<br>▪ **Cyfle** i ddarganfod bydoedd, athroniaethau a diwylliannau newydd<br>▪ **Gwell** gallu i ddangos empathi<br>▪ **Gwell** sgiliau amlieithog | | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Cyfranogi**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – Rhagfyr 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae cyfran o boblogaeth Cymru sy'n cymryd rhan mewn ysgrifennu creadigol wedi **cynyddu 1.2 pwynt canran** o 8.2% yn 2016 i 9.4% erbyn 2021 **(**sy'n gyfwerth â **41,400 o bobl yn ychwanegol)** | Nid yw'r Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru wedi ei gyhoeddi eto. | Fel ar y chwith. | Arolwg Omnibws Cyngor Celfyddydau Cymru ar gyfranogiad yn y celfyddydau |
| Mae o leiaf **110,000 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau cynulleidfa** yn ymgysylltu â'n gweithgarwch yn flynyddol, o gymharu â 367,236 yn 20/21. | Yn y cyfnod uchod, mae **6,398** o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd wedi cymryd rhan yn ein gweithgareddau 'yn bersonol'. Yn ogystal â hyn, rydym wedi ymwneud â **18,892** o bobl drwy ein gweithgareddau digidol, gan gynnwys ein hadnoddau a'n gweithgareddau ar y cyfryngau cymdeithasol, ar fideos, ac ar-lein. | Ers mis Ebrill, mae **123, 878 o gyfranogwyr creadigol ac aelodau o gynulleidfaoedd** wedi ymwneud â'n gweithgareddau (yn cynnwys ffigurau digidol). | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Mae o leiaf **50% o'n cyfranogwyr creadigol** yn arddel un neu fwy o Nodweddion ein Cleientiaid Targed, o gymharu â tua 20% yn 20/21. | Oherwydd COVID-19, mae'r **targed hwn wedi'i roi o'r neilltu dros dro**. Mae nifer o'n gweithdai wedi'u gohirio ac rydym yn dal i ddatblygu a chyflwyno fframwaith i gasglu data gan y rheini sy'n ymwneud â'n holl gomisiynau digidol. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a monitro Cydraddoldeb ac Amrywiaeth |
| Mae o leiaf **550 cyfranogwr creadigol** yn cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu awduron yn flynyddol, o gymharu â 694 yn 20/21. | Mae **69 o gyfranogwyr creadigol** wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd datblygu i awduron yn y cyfnod uchod. | Mae cyfanswm o **280 o gyfranogwyr creadigol** wedi cael eu cyfeirio at ein cyfleoedd a gynigir o dan y golofn gweithgaredd datblygu i awduron. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Datblygu Awduron**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – Rhagfyr 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Rydym yn darparu o leiaf **300 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol** ar gyfer egin awduron yn flynyddol, o gymharu â 280 yn 20/21. | Darparwyd **40 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol** i egin awduron yn y chwarter hwn. Er enghraifft, ym mis Rhagfyr, dangosodd pedwar egin awdur a oedd yn rhan o'n prosiect *Ar y Dibyn* botensial mawr. Yn ei dro, cynyddwyd y cyllid ac mae partneriaid wedi dechrau chwilio am ragor o gyllid i ehangu'r rhaglen. | I gyd, rydyn ni wedi darparu **152 o gyfleoedd creadigol a phroffesiynol** i egin awduron ers mis Ebrill 2021. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Y tudalennau sy'n rhoi gwybodaeth am ddatblygu awduron ar-lein yn cael **eu gweld o leiaf 37,000 o weithiau'n unigryw** bob blwyddyn, o'i gymharu â 33,463 o weithiau yn 20/21. | **Gwelwyd ein tudalennau** am ddatblygu awduron **2,409** o weithiau'n unigryw yn y chwarter hwn. Datblygwyd ein prosiect Gwybodaeth ac Adnoddau ymhellach, gyda'r holl staff yn cael gwybod amdano ac yn ei gymeradwyo yn un o'n Cyfarfodydd Creadigol misol. | I gyd, mae ein tudalennau am ddatblygu awduron wedi'u gweld **10,517** o weithiau'n unigryw. Mae'r ffigur yn is na'r llynedd, a'r nod yw cynyddu nifer y tudalennau a welir yn unigryw drwy ddatblygu cynnig cyffrous a pherthnasol ar gyfer ein hadnoddau digidol. | Google analytics |
| Rhoi cymorth parhaus i gyfanswm o **150 o awduron ifanc** (16-30 oed) yn flynyddol, o'i gymharu â 175 yn 20/21. . | Rhoddwyd cymorth parhaus i **44 o awduron ifanc** yn y chwarter hwn | I gyd, rydyn ni wedi rhoi cefnogaeth barhaus i **120** o awduron ifanc ers mis Ebrill 2021. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithgaredd: **Diwylliant Llenyddol Cymru**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr | Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Mae o leiaf **260 awdur profiadol** a **400 darn o waith llenyddol** yn rhan o brosiectau proffil uchel yn flynyddol, o gymharu a 234 a 410 yn 20/21. | **Mae 27 o awduron profiadol a 210 gwaith llenyddol** wedi bod yn rhan o'n prosiectau proffil uchel ers mis Hydref. | Bu cyfanswm o **139 o awduron profiadol a 431 gwaith llenyddol** yn rhan o'r prosiectau profiil uchel yn ystod y cyfnod uchod. Mae'n werth nodi bod y diffyg o gyrsiau Tŷ Newydd wedi arwain at ganlyniadau is na'r disgwyl ar gyfer y darged hon. | Ein hadroddiad au gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Byddwn yn hwyluso ac yn cydweithio ar **o leiaf 23 partneriaeth a phrosiect cyfnewid** y tu allan i Gymru yn flynyddol, o gymharu â 18 yn 20/21. | Yn y cyfnod uchod, rydym wedi **hwyluso neu gydweithio ar 3 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid y tu allan i Gymru**. | I gyd, rydym wedi hwyluso neu gydweithio ar **13 o brosiectau partneriaeth a chyfnewid** y tu allan i Gymru yn ystod y cyfnod uchod. | |
| Drwy ein hymyriad ni, mae o leiaf **80 comisiwn y flwyddyn** yn cael eu dyfarnu i awduron profiadol gan sefydliadau eraill , o gymharu a 114 yn 20/21. | Mae **11 o awduron profiadol** wedi cael eu comisiynu drwy ein hymyriadau yn y cyfnod uchod. | Mae cyfanswm o **26 o gomisiynau** wedi'u rhoi i awduron profiadol hyd yma gan sefydliadau eraill o ganlyniad i'n hymyriadau ni. | |
| Mae o leiaf **60 egin awdur** yn ymgysylltu â'n cyfleoedd proffil uchel yn flynyddol, o gymharu â 57 yn 20/21. | Cymerodd **18 o egin awduron ran yn ein prosiectau proffil uchel,** gan gynnwys nifer o artistiaid drwy brosiect Plethu/Weave. | Mae cyfanswm o **53 o egin awduron** wedi bod yn rhan o'n cyfleoedd proffil uchel. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Monitro a Gwerthuso**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| 100% o'n data o'n prosiectau gweithgareddau a'n prosiectau gweithredol wedi'u storio ar ein porth monitro a gwerthuso canolog | Ar ôl canfod nad yw ein holl ddata am weithgareddau a materion gweithredol yn cael eu casglu'n fisol drwy ein hadroddiadau gwerthuso ac adroddiadau cynnydd ein prosiectau, rydyn ni wedi rhoi ystyriaeth fanwl i gapasiti'r staff wrth ddatblygu'r fframwaith effaith newydd yn ystod y chwarter hwn. Bu'r holl staff yn bresennol mewn sesiwn hyfforddiant fewnol am gasglu data ar gyfer prosiectau, dan arweiniad Claire Furlong, y Dirprwy Brif Weithredwr, a Miriam Sautin, a'r Cydlynydd Creadigol. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau a'r arolwg Marchnata a Chyfathrebu blynyddol |
| Mae **1 Adroddiad Blynyddol** yn cyfleu ein heffaith wedi'i gylchredeg | Rydyn ni wedi creu Adroddiad Blynyddol 2020/2021 yn llwyddiannus. . | Fel ar y chwith. | |
| 12 adroddiad gwerthuso misol [WEDI'U GOHIRIO AM Y TRO yn 21/22] a 4 adroddiad gwerthuso chwarterol wedi'u llunio | Dyma drydydd adroddiad gwerthuso chwarterol 2021/2022. Mae'r cynllun i greu adroddiadau misol wedi'i ohirio am y tro ac yn ystod y chwarter hwn rydyn ni wedi datblygu prosesau cyfathrebu mewnol newydd sy'n cynnwys cyflwyniadau gan staff, a mwy o dryloywder o gyfarfodydd yr Uwch Dîm Arwain. | Rydym wedi creu **3 adroddiad gwerthuso chwarterol** yn y cyfnod uchod. | |
| **Y syniadau ar gyfer 100% o brosiectau newydd neu brosiectau parhaol yn cael eu cynnig i'r Uwch Dîm Arwain, a phob un yn cyfeirio at wersi i'w dysgu o'n dadansoddiadau** | Mae'r syniadau ar gyfer 100% o brosiectau wedi'u cynnig i'r uwch dîm arwain yn y cyfnod uchod. Mae'r adborth gan y staff yn awgrymu bod y Cyfarfodydd Creadigol misol wedi bod yn ddefnyddiol i fireinio syniadau am brosiectau cyn eu cyflwyno. Mae dogfennau cynllunio prosiectau wedi esblygu a bydd system newydd wedi'i chyflwyno o fis Ebrill 2022 sy'n llai ffurfiol na'r broses i gyflwyno syniadau am brosiectau, gyda'r staff yn awgrymu bod honno'n cymryd gormod o'u hamser. Roedd y broses yn angenrheidiol wrth i'r sefydliad newid dros y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r holl staff bellach yn deall y newidiadau ac nid yw'r system yn addas i'w diben. | Fel ar y chwith. | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Adnoddau Dynol**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| 100% o'r staff wedi mynychu o leiaf 3 sesiwn hyfforddiant i dimau amrywiol | Yn y cyfnod uchod, bu 100% o staff mewn gwahanol sesiynau hyfforddiant mewnol ac allanol i dimau amrywiol, gan gynnwys Mesur Effaith a Phrosesau Casglu Data Misol (mewnol), a bu rhai o'r staff yn y Gynhadledd Celfyddydau i'r Teulu: Beth Nawr? Beth Nesaf? | Mae 100% o'r staff wedi bod i o leiaf 6 sesiwn hyfforddiant i dimau amrywiol ers mis Ebrill 2021. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| O leiaf 4 aelod o staff i elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus (e.e. cyrsiau) bob blwyddyn | Mae 4 aelod o staff wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus, gan gynnwys Prentis Cyllid AAT (1) a Chwrs Dysgu Cymraeg (3) | Mae 4 aelod o'r staff wedi elwa o gyfleoedd datblygu proffesiynol parhaus hyd yma | |
| Sgoriau boddhad y staff â'u swyddi wedi cynyddu o leiaf 7% | Rydyn ni wrthi'n cwblhau ein harolwg o lesiant/boddhad y staff a fydd yn cael ei anfon yn gynnar yn 2022/23. Byddwn ni'n blaenoriaethu llesiant y staff ac yn ystyried yn ofalus eu teimladau a'u sefyllfaoedd wrth drafod dychwelyd i'r swyddfa | Fel ar y chwith. | Dadansoddiad o ddiwylliant y cwmni fel rhan o'r Cynllun Llesiant Staff a'r broses Adolygu Datblygiad Perfformiad |
| O leiaf 5% o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a chyfarwyddwyr yn arddel hunaniaeth pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, a 5% ag anableddau. Bydd 1 o'r rhain mewn swydd uwch ar y staff a'r Bwrdd (pan fydd lle gwag ar gael) | Dros y cyfnod hwn roedd cyfartaledd o 9.27% o'n gweithwyr, gwirfoddolwyr, contractwyr a chyfarwyddwyr yn arddel hunaniaeth pobl ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, ac mae gan 0% anableddau. Mae 3 o'r rhain mewn swyddi uwch ar y staff a'r Bwrdd. | Fel ar y chwith. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Byddwn ni wedi gweithio gydag o leiaf 20 gwirfoddolwr | Mae 8 gwirfoddolwr wedi gweithio gyda ni yn y cyfnod uchod drwy ein prosiectau gweithgareddau. | Rydyn ni wedi gweithio gyda 15 o wirfoddolwyr ers 1 Ebrill 2021 (yn is na'r disgwyl oherwydd cyfyngiadau COVID-19.) | |

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Busnes Canolfan Ysgrifennu Tŷ Newydd**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol 1 Hydref – 31 Rhagfyr | Y Cynnydd Cyffredinol 1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| **2 gais grant Ymddiriedolaethau a Sefydliadau llwyddiannus** ar gyfer cyllid tuag at waith cadwraeth, atgyweirio a chynnal a chadw yn Nhŷ Newydd | Ni anfonwyd unrhyw gesiaidau grant yn y cyfnod uchod. Mae strategaeth codi arian newydd eisoes ar waith a bydd y cais cyntaf yn cael ei anfon yn mis Ionawr 2022. | Fel ar y chwith. | Ein cyfrifon chwarterol a chofnod o waith codi arian |
| **Cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd** wedi'i lansio, ac o leiaf **30** o Ffrindiau newydd yn ymuno [**RHEWYD 20/21]** | Oherwydd COVID-19, mae cynllun Ffrindiau Tŷ Newydd, a fydd yn cyd-fynd â chynllun Ffrindiau Llenyddiaeth Cymru, wedi'i ohirio am y tro. | Fel ar y chwith. | |
| **Manylebau gwaith newydd** wedi'u creu gan benseiri ar gyfer gwaith adfer brys sydd ei angen ar y tŷ gwydr [**RHEWYD 20/21]** | Tra bo'r ganolfan ar gau oherwydd COVID-19, bydd oedi yn y gwaith. | | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| **Adnewyddu 2 ystafell wely** i safon uchel [**RHEWYD 20/21]** | | | |
| Mae o leiaf **85%** o fynychwyr Cyrsiau Tŷ Newydd yn cytuno bod eu hymweliad wedi'u helpu i ddatblygu fel awdur, a dywedodd **90%** y byddant yn dychwelyd i'r ganolfan yn y dyfodol [**RHEWYD 20/21]** | Oherwydd COVID-19, mae'r gwaith i gasglu'r data hwn wedi'i roi o'r neilltu am y tro. Rydym wrthi'n cynllunio gweithgaredd gwerthuso byr, i'w gwblhau gan gyfranogwyr sy'n cymryd rhan yn ein cyrsiau rhithwir. | Fel ar y chwith. | |

Llenyddiaeth Cymru Literature Wales

# Canlyniadau Sefydliadol

## Prif Nodau Llwyddiant Gweithredol: **Hwyluso'r Sector**

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Y Cynnydd Presennol<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr | Y Cynnydd Cyffredinol<br>1 Ebrill – 31 Rhagfyr 2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|---|
| Peidio darparu mwy na **10 prosiect yn uniongyrchol bob blwyddyn** | Darparwyd 6 prosiect yn y cyfnod uchod, gan gynnwys Llyfr y Flwyddyn a Cynrychioli Cymru. | **Fel ar y chwith.** | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Cefnogi **o leiaf 30 prosiect a gaiff eu harwain gan bartneriaid** fel hwyluswyr neu bartneriaid eilaidd yn flynyddol, a chefnogi 30 arall â chefnogaeth mewn nawdd cyffredinol | Rydym wedi rhoi cefnogaeth helaeth i **8 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid**, ac wedi rhoi **cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 4 prosiect**. | I gyd, rydym wedi rhoi cefnogaeth helaeth i **28 o brosiectau sy'n cael eu harwain gan bartneriaid**, ac wedi rhoi **cymorth cyffredinol heb fod yn ariannol i 19 prosiect arall**. | |
| Darparu cyllid a/neu gefnogaeth mewn nawdd i **o leiaf 500 o unigolion**, **grwpiau a sefydliadau** yn flynyddol | Rydym wedi darparu cefnogaeth mewn nawdd a chefnogaeth nad yw'n ariannol i **108 o unigolion, grwpiau a sefydliadau**. | Rydym wedi rhoi cyllid a/neu gefnogaeth nad yw'n ariannol i 261 o **unigolion, grwpiau a sefydliadau** eleni. | |
| Rydym wedi ysgogi **o leiaf 12** prosiect llenyddol cynaliadwy hunan-gynhaliol **mewn meysydd lle mae angen** | Rydym wedi ysgogi **11 prosiect llenyddol newydd, sy'n gynaliadwy ac yn cael eu cynnal gan y bobl eu hunain**, mewn ardaloedd lle mae angen. | I gyd, mae **27 prosiect llenyddol newydd** wedi'u hysgogi mewn ardaloedd ble mae angen. | |

# Gofynion cyllido ychwanegol Cyngor Celfyddydau Cymru

## Ymwneud â'n Sector, Cyfleoedd Llawrydd Creadigol & Chynllun Gweithredol yr Amgylchedd

| Targedau ar gyfer 31 Mawrth 2022 | Cynnydd Presennol<br>1 Hydref– 31 Rhagfyr2021 | Y dull o gasglu data |
|---|---|---|
| Gweithredu fel **arweinydd y sector a hwylusydd** i lenyddiaeth yng Nghymru, gan weithio gydag ystod eang o bartneriaid yng Nghymru, y Deyrnas Unedig ac yn rhyngwladol. | Mae Llenyddiaeth Cymru yn parhau i weithredu fel arweinydd yn y sector a hwylusydd i lenyddiaeth yng Nghymru a'r tu hwnt. Drwy fynychu a chyfrannu'n rheolaidd at drafodaethau ehangach yn y sector, gan gynnwys Cynghrair Diwylliant Cymru a What Next? Cymru, mae modd sicrhau ein bod yn cadw cysylltiadau pwysig yn y sector, a'n bod yn gallu cael trafodaethau prydlon am syniadau a chynlluniau newydd. Gweler y dudalen am hwyluso yn y sector i weld rhagor o ddata. | Gwaith Hwyluso'r Sefydliad yn y Sector |
| Ar y cyd, darparu o leiaf **2 brosiect newydd mewn partneriaeth** gan ddefnyddio ysgrifennu creadigol i feithrin lles yng ngweithle rhanddeiliad (e.e. ar gyfer gweithwyr y GIG, gan weithio â Byrddau Iechyd Cymru). | Yn ystod y chwarter hwn, datblygwyd gweithdai ysgrifennu creadigol i staff y GIG mewn partneriaeth â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, dan arweiniad Uschi Turoczy. Bydd y gweithdai yn hyrwyddo llesiant cadarnhaol a chydweithio rhwng cyfranogwyr. Canlyniad y prosiect fydd blodeugerdd fer o farddoniaeth, wedi'i chreu gan y cyfranogwyr. | Ein hadroddiadau gwerthuso a chynnydd prosiectau |
| Dim ond **40% neu lai** o siwrneiau cymudo'r staff sy'n golygu teithio i'r swyddfa mewn car ar eu pennau'u hunain. | Mae patrwm gweithio'r tîm wedi newid yn arw dros y flwyddyn ddiwethaf ond wrth inni baratoi at ddychwelyd yn rhannol i'r swyddfa, byddwn yn annog y staff i ystyried dulliau teithio gwahanol, yn bennaf drwy ein Cynllun Seiclo i'r Gwaith newydd. | Ar ganol cael ei ddyfeisio |
| Bu **gostyngiad o 50%** yn y milltiroedd a hawliwyd gan y staff at ddibenion gwaith (i fynd i ddigwyddiadau, cyfarfodydd ac ati), o'i gymharu â ffigurau 2019-20 cyn COVID-19. | Mae'r targed hwn wedi'i roi o'r neilltu am y tro oherwydd COVID-19. | Ar ganol cael ei d dyfeisio |

# Gwerthuso

## Gwersi **Sefydliadol a Gweithredol** i'w Dysgu

### Gwersi Sefydliadol i'w Dysgu
### 1 Hydref – 31 Rhagfyr2021

Dros y chwarter diwethaf, fe wnaethon ni recriwtio i ddwy swydd bwysig – Arweinydd Creadigol a Chydlynydd Creadigol.  Am y tro cyntaf, fe wnaethon ni gynnig cyfweliad sicr i ymgeiswyr a oedd o gefndir lleiafrif ethnig neu gefndir incwm isel, neu i ymgeiswyr a oedd yn byw gydag anabledd neu salwch cronig, os oedden nhw'n bodloni anghenion sylfaenol y swydd.  Dysgwyd llawer o'r broses hon. Yn gyntaf, fe gawson ni fwy o ymgeiswyr nag o'r blaen a oedd yn bodloni'r anghenion hyn (77% o'r ymgeiswyr am swydd y Cydlynydd Creadigol, a 50% o'r ymgeiswyr am swydd yr Arweinydd Creadigol), sy'n dangos bod pobl na fyddai gan amlaf wedi ymgeisio wedi gwneud hynny.  Roedd yr ymgeiswyr a gafodd eu cyfweld felly yn fwy amrywiol a dywedodd aelodau'r panel eu bod wedi cael eu synnu ar yr ochr orau gan rai o'r ymgeiswyr a gyflwynodd eu hunain yn well mewn cyd-destun cyfweliad na thrwy'r cais ysgrifenedig. Mae hyn yn dangos ein bod wedi diystyru ymgeiswyr da yn y gorffennol cyn rhoi cyfweliad iddyn nhw.  Yn olaf, ar ddiwedd y broses recriwtio, roedd aelodau newydd y tîm yn dod o gefndiroedd Du Affricanaidd a chymysg – gwyn/Indo-Garibïaidd. Maen nhw wedi dod â phrofiad helaeth i'r tîm, ac yn ddau lais cryf, newydd a fydd yn cyfrannu at ein prosesau gwneud penderfyniadau.

Newyddion arall o'r byd staffio yw bod Branwen yn swyddogol wedi dechrau yn swydd yr Arweinydd Cyfathrebu Dros Dro ac wedi gweithio gyda Claire i gytuno ar restr dasgau helaeth a fydd yn rhoi cyfle iddi ddangos ei sgiliau arwain dros y misoedd nesaf wrth iddi dychwelyd o'i chyfnod mamolaeth.

Yn olaf, fel y gŵyr yr holl gyfarwyddwyr, cwblhawyd y broses o ailstrwythuro'r trefniadau staffio a ddechreuodd ym mis Ionawr 2020 ac mae teitlau swyddi'r staff a'r strwythur rheoli llinell bellach yn eglur.

### Prosiectau Gweithredol
### 1 Hydref– 31 Rhagfyr 2021

Yn ystod y chwarter hwn, datblygwyd ein dulliau cyfathrebu mewnol er mwyn sicrhau bod y pethau a ddysgwyd yn cael eu rhannu a thrwy hyn, creu diwylliant sefydliadol gwbl dryloyw. Mae dull y sefydliad o ymdrin â gwaith ar sail tasgau yn golygu bod bron pob aelod o staff wedi cyfrannu at neu arwain ar ddatblygiad o'n polisïau sefydliadol. Mae'r broses hon yn ein helpu i adnabod anghenion hyfforddiant o fewn y tîm gan gynnwys diogelu plant a phobl bregus, hygyrchedd yn y gweithle ac mewn prosiectau, ac ymwybyddiaeth o fyddarwch.
Bydd sesiynau hyfforddiant ar y pynciau uchod yn cael eu cynnal yn y flwyddyn newydd.
Bydd pob newid polisi a pholisïau newydd caiff eu cymeradwyo gan y Bwrdd yn ystod cyfarfod mis Chwefror 2022 yn cael eu cyfathrebu'n fewnol, gyda hyfforddiant pellach yn cael ei drefnu lle'n berthnasol.
Rhannwyd y Tîm Uwch Reoli mewn i ddau is-dim gydag un yn ffocysu ar brosiectau gweithredol a'r llall yn trafod pynciau creadigol. Dylai'r newid hwn fireinio trafodaethau mewnol o fewn y tîm uwch reoli a'r tîm ehangach.

# Gwerthuso

## Gwersi i'w dysgu o'n **Gweithgareddau**

| Gweithgareddau | Gwersi i'w Dysgu<br>1 Hydref – 31 Rhagfyr 2021 | Camau Gweithredu / Argymhellion i'r Dyfodol |
|---|---|---|
| Bardd Plant Cymru a Children's Laureate Wales | Cyhoeddwyd enwau ein Beirdd Plant newydd ar Ddiwrnod Cenedlaethol Barddoniaeth 2021. Cafodd y cyhoeddiad ymateb cadarnhaol ar y cyfryngau cymdeithasol gyda'r diwrnod a ddewiswyd yn rhoi mwy o gyfleoedd yn y cyfryngau a'r wasg, gyda Connor yn cael ei gyfweld ar ITV Wales a Casi ar S4C.<br><br>Roedd lansio gyda cherdd fideo hefyd yn llwyddiant ac yn adnodd defnyddiol i'w rannu â rhanddeiliaid, partneriaid a'r cyfryngau.<br><br>Mae'n bosibl y gallai'r beirdd fod wedi cael eu briffio'n fanylach cyn eu hymddangosiadau ar y cyfryngau i sicrhau eu bod yn deall cyfrifoldebau'r swydd yn llawn ac yn gallu cyfathrebu hynny i gynulleidfaoedd. | Briffio'r Beirdd Plant yn fanwl cyn unrhyw ymddangosiadau ar y cyfryngau, a sicrhau bod yr holl bartneriaid a'r gwefannau perthnasol yn cael eu dangos i'r Beirdd Plant ymlaen llaw.<br><br>Trefnu digwyddiad/prosiect ar ddechrau'r flwyddyn, i gynnal diddordeb a momentwm yn dilyn y lansiad.<br><br>Datblygu fframwaith effaith manwl gyda'r beirdd ar ddechrau'u cyfnodau, fel bod modd cyfathrebu'n glir â chynulleidfaoedd am nodau'r prosiect a'r effeithiau y gobeithir eu cael. |
| Cynrychioli Cymru: Datblygu Awduron o Liw | Lansiwyd ail rownd cynllun Cynrychioli Cymru ac roedd y ffenestr ymgeisio ar agor yn ystod Chwarter 3. Gwers o bwys i'w dysgu oedd sut i greu proses ymgeisio hygyrch. Neilltuodd yr aelodau o staff amser yn creu dogfennau sy'n ystyriol o ddyslecsia gan ateb ymholiadau dros y ffôn a'r e-bost i sicrhau bod yr holl awduron cymwys yn gallu anfon eu ceisiadau mewn ffordd deg a sensitif.<br><br>Roedd y broses ymgynghori a gynhaliwyd yn ystod Chwarter 2 hefyd yn anhepgor i roi gwybodaeth i'r staff a oedd yn gyfrifol am sifftio'r ceisiadau i benderfynu pa rai oedd yn gymwys.<br><br>Roedd ystyried llwyth gwaith y staff yn ofalus hefyd yn wers o bwys i'w dysgu, gan arwain at recriwtio cymorth cyfathrebu llawrydd. | Rhannu gwersi i'w dysgu â'r tîm a gweithio i greu proses gais gyson a hygyrch ar gyfer prosiectau a rhaglenni tebyg. Bydd y tîm yn gweithio i sicrhau bod yr ymgeiswyr yn teimlo'n gyfforddus â'r broses, ac yn ystyried datblygu dulliau gwahanol o weithio ar geisiadau a rhannu hynny ar ein tudalen Gwybodaeth ac Adnoddau.<br><br>Dylid nodi ac ystyried pa gynnwys mewn ceisiadau a fydd yn croesi'r trothwy cyn i'r staff ddechrau'r broses o'u sifftio ar gyfer cymhwysedd a'u trosglwyddo i aelodau'r panel.<br><br>Ystyried yn ofalus sut i gysylltu ag ymgeiswyr aflwyddiannus yn sensitif ac yn ofalus drwy eu cyfeirio at gyfleoedd a'r digwyddiadau sydd gan Llenyddiaeth Cymru ar y gweill. |
| Y Gronfa Ysbrydoli Cymunedau | Lansiwyd ein Cynllun Ysbrydoli Cymunedau fis Tachwedd. Hyd yma, mae nifer go dda o geisiadau wedi dod i law ond gellid gwneud mwy i ddenu sefydliadau newydd i'r cynllun a allai helpu wedyn i hwyluso digwyddiadau llenyddol amrywiol, gwreiddiol a chyffrous.<br>Dysgwyd hefyd bod prosiectau'r Beirdd Plant yn naturiol yn gorgyffwrdd â'r cynllun cyllido, a gellid gwneud mwy i wneud ysgolion perthnasol yn ymwybodol o'r cymorth ariannol sydd ar gael. | Gwahaniaethu ymhellach rhwng y cynllun newydd a'r fersiwn flaenorol. Cynllunio ymgyrch ofalus ar y cyfryngau cymdeithasol i geisio cyrraedd cynulleidfaoedd newydd. Ychwanegu gwybodaeth am y cynllun at dudalennau prosiect y Beirdd Plant. |